Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth;
Mid Wales Corporate Joint Commitee

# CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL CANOLBARTH CYMRU (CTRhCC)

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru – Adroddiad Ymgynghori



# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **CYFLWYNIAD** | **1** |
| 1.1 | TROSOLWG | 1 |
| 1.2 | PWRPAS YR ADRODDIAD | 1 |
| 1.3 | STRWYTHUR | 1 |
| **2** | **GWEITHGAREDDAU YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID HYD YMA** | **3** |
| 2.1 | TROSOLWG | 3 |
| **3** | **YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS** | **10** |
| 3.1 | TROSOLWG | 10 |
| 3.2 | MONITRO CYDRADDOLDEB | 10 |
| 3.3 | YMGYNGHORIAD STATUDOL | 10 |
| 3.4 | ADBORTH O'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS | 10 |
| 3.5 | AMCANION Y CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL | 11 |
| 3.6 | POLISÏAU'R CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL | 17 |
| 3.7 | CYNLLUNIAU'R CYNLLUN CYFLAWNI TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL | 24 |
| 3.8 | ADBORTH CYFFREDINOL | 30 |
| **4** | **Y CAMAU NESAF** | **31** |
| 4.1 | PUM FFORDD O WEITHIO | 31 |
| 4.2 | DIWEDDARIADAU I CTRHCC | 32 |
| 4.3 | Y CAMAU NESAF | 36 |


## *ATODIADAU*


**Atodiad A – Arolwg yr Ymgynghoriad Cyhoeddus**

# 1 CYFLWYNIAD

## 1.1 TROSOLWG

1.1.1 Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru (CTRhCC) wedi cael ei baratoi gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth sy'n cwmpasu Awdurdodau Lleol Powys a Cheredigion mewn ymateb i ofyniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol erbyn 2025.

1.1.2 Mae'r gwaith o baratoi'r Cynllun wedi cael ei oruchwylio gan Is-bwyllgor Trafnidiaeth y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae'r Cynllun yn ddogfen statudol ar gyfer trafnidiaeth yn y rhanbarth. Mae'r ddau awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd i hwyluso llesiant economaidd, cynllunio datblygu strategol a chludiant, sicrhau mynediad i bawb at wasanaethau a chyfleoedd, cynnal a gwella ansawdd bywyd cymunedol, a gwneud cyfraniad gweithredol at garbon sero net ac ansawdd yr amgylchedd trwy ddarparu mewn partneriaeth system drafnidiaeth integredig a fforddiadwy yn y rhanbarth.

1.1.3 Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) yn ategu gwaith yr awdurdodau lleol ar ddatblygu economaidd a chynllunio gan gynnwys cynlluniau a pholisïau statudol dau awdurdod. Nod y Cynllun yw rhoi sylw i'r materion a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer y Canolbarth, gan gynnwys:

- Anawsterau o ran cael mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau, yn enwedig i bobl heb gar ac oherwydd yr angen i deithio pellteroedd hir.
- Cyfleoedd gwael ar gyfer pasio, mannau cul a chyfyngiadau ar y rhwydwaith ffyrdd strategol sy'n arwain at fwy o darfu a llai o ddibynadwyedd o ran amser teithio ar gyfer symud pobl a nwyddau yn y rhanbarth ac i gyrchfannau allweddol y tu allan i'r Canolbarth.
- Mwy o risgiau i gydnerthedd y rhwydwaith yn sgil effeithiau newid hinsawdd, gan gynnwys perygl llifogydd.
- Cyfleoedd i gynyddu cyfran dulliau trwy gerdded, olwyno a beicio a gwella iechyd a llesiant y gymuned leol a pharhau i wella diogelwch ar y ffyrdd.

1.1.4 Mae'r Cynllun yn cwmpasu rhaglen fanwl o 2025 i 2030 a fframwaith ar gyfer cynlluniau tan 2040 a thu hwnt y bydd y ddau awdurdod yn eu cyflenwi yn amodol ar gyllid grant. Mae'n nodi ystod o ymyriadau a chynlluniau ar gyfer pob dull teithio, rhai yn berthnasol ar draws y ddau awdurdod a rhai lleol. Mae'r cynlluniau'n ymateb i'r materion ar gyfer trafnidiaeth yn y rhanbarth ac yn ategu'r rhai sy'n cael eu datblygu ar lefel genedlaethol ac ar draws ffiniau.

## 1.2 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi crynodeb o'r holl weithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd fel rhan o ddatblygiad CTRhCC. Mae hyn yn cynnwys manylion y rhai yr ymgynghorwyd â nhw, crynodeb o'r adborth a gafwyd a llwybr archwilio o'r diweddariadau a wnaed i'r CTRh yn seiliedig ar adborth o'r ymgysylltu a'r ymgynghori.

## 1.3 STRWYTHUR

- **Pennod 2:** Gweithgareddau ymgysylltu hyd yma yn crynhoi pwy yr ymgynghorwyd â nhw a'r dulliau ymgysylltu.
- **Pennod 3:** Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus y CTRh.

- **Pennod 4:** Disgrifiad o sut y mae'r ymatebion a gafwyd o'r ymgysylltu a'r ymgynghori wedi cael eu hymgorffori yn fersiwn terfynol CTRhCC.

# 2 GWEITHGAREDDAU YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID HYD YMA

## 2.1 TROSOLWG

2.1.1 Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi bod yn hanfodol ym mhob cam o ddatblygu CTRhCC, yn enwedig yr elfennau canlynol o'r Cynllun:

- Achos dros Newid
- Gweledigaeth ac amcanion
- Polisïau
- Cynlluniau

2.1.2 Mae Atodiad 4 CTRhCC yn amlinellu Cynllun Ymgysylltu CTRhCC. Mae'n nodi'r rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â nhw ynghyd â manylion sut, pryd a pham. Mae'r Cynllun Ymgysylltu hefyd yn rhoi manylion am y camau a gymerwyd i ymgorffori'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgysylltu â rhanddeiliaid.

2.1.3 Mae Tabl 2-1 yn crynhoi'r amrywiaeth o sefydliadau a gafodd eu cynrychioli yn y gweithdai rhanddeiliaid. Roedd cynrychiolwyr o'r sector trafnidiaeth, ond hefyd y rhai sy'n cynrychioli'r sector iechyd, addysg, yr amgylchedd, busnes, cludo nwyddau, twristiaeth, y trydydd sector, awdurdodau lleol cyfagos a thrawsffiniol, wedi cael eu cynnwys yn yr ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer CTRhCC.

**Tabl 2-1- Crynodeb o Weithgareddau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid CTRhCC**

| Gweithgareddau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | Mynychwyr | Adborth a gafwyd | Sut mae'r adborth wedi llywio CTRhCC? |
|---|---|---|---|
| Dau weithdy rhanddeiliaid i lywio'r gwaith o ddatblygu amcanion ac Achos dros Newid CTRhCC (11.04.2024 a 25.04.2024). Gwasanaeth cyfieithu Cymraeg ar gael yn y ddau weithdy. | Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys (Aelodau Etholedig a Swyddogion); Llywodraeth Cymru; TrC; Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO); Heddlu Dyfed Powys; Lein Calon Cymru; Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru (MWMG); Network Rail; Grŵp Colegau NPTC; Sustrans Cymru; Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. | **Mynediad at gyflogaeth, addysg a gofal iechyd a heriau gwledigrwydd**<br>Mynegodd rhanddeiliaid bryderon bod gwasanaethau yn canolbwyntio ar yr aneddiadau mwyaf trefol yn y rhanbarth ar hyn o bryd, tra bod y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn gorfod teithio pellteroedd hir i gael mynediad at wasanaethau allweddol.<br>**Argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus a thlodi trafnidiaeth**<br>Dywedodd rhanddeiliaid fod diffyg trafnidiaeth gyhoeddus ar hyn o bryd yng Nghanolbarth Cymru, ac nid yw gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn alinio gan felly atal teithiau trafnidiaeth gyhoeddus pellter hir o ddrws i ddrws.<br>**Fforddiadwyedd a dibynadwyedd amser teithio**<br>Cododd rhanddeiliad gwestiynau ynghylch y diffyg buddsoddiad mewn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghanolbarth Cymru, gan nodi bod buddsoddiad yn hanfodol i wella gweithrediad | • Rhoddodd rhanddeiliaid adborth ar y materion, y cyfleoedd a'r rhyngddibyniaethau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yn y rhanbarth, ac amcanion drafft CTRhCC.<br>• Mae adborth wedi llywio datblygiad amcanion CTRhCC, yr Achos dros Newid, y materion, y cyfleoedd a'r rhyngddibyniaethau a nodwyd yn CTRhCC. |

| Gweithgareddau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | Mynychwyr | Adborth a gafwyd | Sut mae'r adborth wedi llywio CTRhCC? |
|---|---|---|---|
| | | gwasanaethau er mwyn denu mwy o ddefnyddwyr.<br>**Diogelwch ar y ffyrdd**<br>Nodwyd diogelwch ar y ffyrdd fel agwedd bwysig ar y system drafnidiaeth y dylid parhau i ganolbwyntio arni, gyda rhanddeiliaid yn cydnabod y rhwydwaith ffyrdd helaeth yng Nghanolbarth Cymru a'r angen i gynnal ei berfformiad er mwyn diogelu'r defnydd ohono.<br>**Gwrthsefyll newid hinsawdd**<br>Roedd rhanddeiliaid yn unfrydol ynghylch pwysigrwydd lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan ddatgan y gallai seilwaith cerdded, beicio ac olwyno, ochr yn ochr â newid i gerbydau trydan a hydrogen, helpu tuag at wireddu'r nod hwn. | |
| Tri chyfarfod Gweithgor CTRhCC (07.05.2024, 07.06.2024 a 18.07.2024). | Swyddogion Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys (gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Adran Priffyrdd, Trafnidiaeth a Chynllunio); Llywodraeth Cymru; TrC. Mynychodd yr Aelodau Etholedig y cyfarfodydd ar 07.06.2024 a 18.07.24 i drafod amcanion a pholisïau drafft Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru. | **Amcanion**<br>• Cytundeb cyffredinol ar yr amcanion a phwysigrwydd ystyried safbwynt Llwybr Newydd ar dwf cynaliadwy o fewn y polisïau<br>• Mae angen nodi a chrybwyll materion rhanbarthol o fewn yr amcanion, gan gynnwys cysylltedd digidol | • Rhoddodd rhanddeiliaid adborth ar yr amcanion drafft, cynnwys CTRhCC a phrosiectau CTRhCC.<br>• Mae adborth wedi llywio datblygiad amcanion a chynnwys CTRhCC, e.e. yr angen i bwysleisio'r argyfwng hinsawdd a natur. |

| Gweithgareddau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | Mynychwyr | Adborth a gafwyd | Sut mae'r adborth wedi llywio CTRhCC? |
|---|---|---|---|
| | | • Gellid ail-eirio'r amcan ULEV i 'cynnydd yn y defnydd o...'<br>• Mae angen cael amcan ar y prosesau nad ydynt yn gysylltiedig â thrafnidiaeth sy'n dylanwadu ar drafnidiaeth, megis cynllunio defnydd tir<br>• Cytundeb unfrydol i newid yr amcan cerdded a beicio i gynnwys olwyno, er mwyn bod yn fwy cynhwysol i bob grŵp defnyddwyr<br>**Gweledigaeth**<br>• Mae angen i'r weledigaeth fod yn glir o ran beth sy'n 'uchelgeisiol' a beth y dylem ni i gyd fod yn gweithio tuag ato.<br>**Arall**<br>• Mae angen cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb gan ei fod yn broses statudol o fewn Awdurdodau Lleol.<br>• Mae angen cynnwys pwysigrwydd rheilffyrdd ac integreiddio dulliau teithio eraill â'r rheilffyrdd.<br>• Angen plethu'r argyfwng hinsawdd a natur trwy CTRhCC. | |

| Gweithgareddau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | Mynychwyr | Adborth a gafwyd | Sut mae'r adborth wedi llywio CTRhCC? |
|---|---|---|---|
| Dau weithdy rhanddeiliaid i lywio'r gwaith o ddatblygu gweledigaeth, amcanion, polisïau a phrosiectau CTRhCC (09.07.2024 a 10.07.2024). Gwasanaeth cyfieithu Cymraeg ar gael yn y ddau weithdy. | Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys (Aelodau Etholedig a Swyddogion); Llywodraeth Cymru; TrC; Network Rail; Sustrans; Tyfu Canolbarth Cymru; Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; Parc Cenedlaethol Eryri; Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA); Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO); Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO); Bwrdd Iechyd Hywel Dda; Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru; Croeso Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadeirydd y Fforwm Trafnidiaeth Coed; Ffederasiwn Busnesau Bach; Midlands Connect; Grŵp Cludo Nwyddau ar y Rheilffyrdd; Lein Calon Cymru; Ffrindiau Lein Calon Cymru; GanBwyll; Cyngor Sir Penfro; Cyngor Abertawe; Cyngor Telford a Wrekin | **Gweledigaeth**<br>• Mae angen i'r weledigaeth adlewyrchu bod natur wledig y rhanbarth yn wahanol i ranbarthau eraill yng Nghymru, ac mae angen i ddyheadau CTRhCC ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â gwledigrwydd<br>• Yr angen i fframio'n gywir y problemau y mae'r rhanbarth yn eu hwynebu ar hyn o bryd er mwyn creu gweledigaeth sy'n addas at y diben<br>• Yr angen i lunio cynllun sy'n cefnogi pobl Canolbarth Cymru, a'r angen i amddiffyn a gwella ffyniant cymunedau o bob maint<br>• Rhaid i'r weledigaeth adlewyrchu'r uchelgais yng Nghanolbarth Cymru i ddatgarboneiddio, a bod datgarboneiddio yn sbardun gwirioneddol ar gyfer trawsnewid.<br>**Amcanion**<br>• Gellid cymhwyso'r amcanion yn eu ffurf bresennol i unrhyw ranbarth ar draws Cymru. Pwysigrwydd creu gweledigaeth sydd wedi'i theilwra i'r rhanbarth ei heriau a'i ddyheadau. | • Rhoddodd rhanddeiliaid adborth ar weledigaeth ac amcanion drafft CTRhCC, a pholisïau a chynlluniau CTRhCC.<br>• Mae adborth wedi llywio datblygiad gweledigaeth ac amcanion CTRhCC, polisïau CTRhCC a chynlluniau'r CCTRh. |

| Gweithgareddau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | Mynychwyr | Adborth a gafwyd | Sut mae'r adborth wedi llywio CTRhCC? |
|---|---|---|---|
| | | • Mae angen i'r amcanion adlewyrchu awydd i symud oddi wrth defnyddio tanwydd ffosil, ac mae'n bwysig bod yr amcanion yn dangos uchelgais i wneud hynny.<br>• Roedd amcanion yn eu ffurf ddrafft yn canolbwyntio'n llwyr ar gludo pobl, ac nid oedd unrhyw amcan i fynd i'r afael â thrawsnewid cludo nwyddau<br>• Dywedwyd bod rhai amcanion yn rhy debyg, gyda'r posibilrwydd o ddryswch os nad oedd amcanion yn wahanol i'w gilydd.<br>**Polisïau**<br>• Rhaid adlewyrchu pwysigrwydd y sector addysg ac iechyd yn y polisïau, yn enwedig mynediad i'r sectorau hyn<br>• Rhaid i bolisïau dynnu sylw at bwysigrwydd cludo nwyddau, gan nodi bod newid moddol cludo nwyddau a pharseli bach yr un mor bwysig â cherbydau teithwyr.<br>• Ni ddylai polisïau weithredu ar eu pennau eu hunain, gan ddatgan y gall polisïau weithio'n effeithiol ar y cyd. | |

| Gweithgareddau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | Mynychwyr | Adborth a gafwyd | Sut mae'r adborth wedi llywio CTRhCC? |
|---|---|---|---|
| | | **Cynlluniau**<br>• Y potensial ar gyfer cydweithio ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan ddatgan bod awydd i wneud hynny er mwyn parhau i ddatblygu cynlluniau arloesol ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru<br>• Mae'r diwydiant cerbydau trydan yn creu potensial, a dylai cynlluniau yng Nghanolbarth Cymru ystyried datgarboneiddio er mwyn datgloi cyfleoedd newydd yn y maes hwn a chyfrannu at uchelgeisiau Sero Net. | |
| Dau weithdy rhanddeiliaid i lywio datblygiad polisïau a chynlluniau CTRhCC yn y CCTRh (0 1.10.24 a 08.10.24) | Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys; Llywodraeth Cymru; TrC | **Polisïau ac Amcanion**<br>• Amcanion heb eu hystyried yn CAMPUS, ond o ran yr hyn y maent yn ceisio'i gyflawni maent yn dilyn polisi cenedlaethol<br>• Mae angen i'r polisïau fod yn benodol a chanolbwyntio ar yr hyn y bydd yr Awdurdodau Lleol yn ei gyflawni.<br>• Mae polisïau a chynlluniau'r CTRh yn y cynllun cyflenwi yn bwysig er mwyn sicrhau cyllid. | • Rhoddodd rhanddeiliaid adborth ar bolisïau a chynlluniau CTRhCC o fewn y CCTRh.<br>• Mae adborth wedi llywio datblygiad polisïau a chynlluniau CTRhCC. |

| Gweithgareddau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | Mynychwyr | Adborth a gafwyd | Sut mae'r adborth wedi llywio CTRhCC? |
|---|---|---|---|
| | | • Mae'r rheilffyrdd yn allweddol i alluogi teithio cynaliadwy<br>**Cynllun Cyflawni**<br>• Mae angen i'r Cynllun fod yn ddigon hyblyg ar gyfer unrhyw gyllid sydd ar gael yn y dyfodol.<br>• Awgrymwyd diweddariadau penodol ar gyfer geiriad rhai o'r cynlluniau | |

2.1.4 Yn ogystal â'r ymgysylltu a nodwyd yn y Cynllun Ymgysylltu, mae datblygiad CTRhCC hefyd wedi cael ei lywio gan ganlyniadau ymarferion ymgysylltu blaenorol a gynhaliwyd ar draws y rhanbarth, megis Asesiadau Llesiant Powys a Cheredigion a oedd yn cynnwys ymgysylltu â grwpiau â nodweddion gwarchodedig.

2.1.5 Mae Cynlluniau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer y ddau Awdurdod Lleol wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus helaeth a oedd yn cynnwys pobl ifanc o bob ysgol, grwpiau anabledd, yn ogystal â cheisio pontio'r bylchau data ar gyfer y rhai â nodweddion gwarchodedig. Cynhaliodd y BGC ddigwyddiadau rhanddeiliaid i dargedu grwpiau o bobl nad oeddent yn cael eu clywed yn aml, y rhai â nodweddion gwarchodedig a phobl a allai ddioddef anfantais economaidd-gymdeithasol er mwyn sicrhau bod eu barn a'u hanghenion yn cael eu hystyried wrth lunio camau gweithredu i ofyn am fynediad gwell at drafnidiaeth gyhoeddus a theithio'n gynaliadwy.

# 3 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

## 3.1 TROSOLWG

3.1.1 Mae Tyfu Canolbarth Cymru yn gweithredu fel Cyd-bwyllgor Corfforedig y rhanbarth ac mae'n gyfrifol am gynllunio trafnidiaeth rhanbarthol, cynllunio defnydd tir strategol, a hyrwyddo llesiant economaidd. Mae rhanbarth Canolbarth Cymru yn un o bedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig a sefydlwyd yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n ceisio gwella democratiaeth ac atebolrwydd lleol trwy integreiddio prosesau gwneud penderfyniadau mewn tri maes allweddol: Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol, Cynllunio Datblygu Strategol, a Llesiant Economaidd.

3.1.2 Datblygwyd CTRhCC i nodi sut y bydd y rhanbarth yn helpu i gyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru a thrawsnewid trafnidiaeth yn y rhanbarth.

3.1.3 Datblygwyd CTRhCC mewn partneriaeth â Chynghorau Sir Ceredigion a Phowys, a chafodd ei lywio gan Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 Llywodraeth Cymru. Roedd ymgynghori â'r cyhoedd yn gam hollbwysig yn y broses hon, gan gynnig cyfle i aelodau'r cyhoedd lunio'r cynllun.

3.1.4 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 4 Chwefror a 4 Ebrill 2025, a gwahoddwyd trigolion, busnesau ac ymwelwyr i leisio eu barn am y cynigion a chyfrannu at lunio dyfodol trafnidiaeth yn y rhanbarth trwy lenwi arolwg yr ymgynghoriad. Mae copi o arolwg yr ymgynghoriad wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

## 3.2 MONITRO CYDRADDOLDEB

3.2.1 Er mwyn deall a oedd arolwg yr ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein wedi cyrraedd y bobl gywir yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, ac er mwyn deall sut y gallai grwpiau gwahanol gael eu heffeithio gan gynigion CTRhCC, gofynnwyd cyfres o gwestiynau monitro cydraddoldeb dewisol fel rhan o'r arolwg. Nododd y cwestiynau hyn fod ystod o grwpiau oedran rhwng 15 a 65+ oed wedi ymateb i'r arolwg, gan ddefnyddio arolwg ar-lein yn hytrach na digwyddiadau wyneb yn wyneb oedd heb gyfyngu ar nifer yr ymatebion a gafwyd. Cafodd postiadau cyfryngau cymdeithasol wedi'u targedu a hysbysebu eu hystyried hefyd wrth hyrwyddo adborth ar yr arolwg.

## 3.3 YMGYNGHORIAD STATUDOL

3.3.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar wahân gyda Chyrff Amgylcheddol Statudol ar yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) yn unol â Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Yn unol â Rheoliadau 13, gofynnwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw, fel asiantaethau statudol wedi'u diffinio o dan Reoliadau AAS, wneud sylwadau ar yr AAS a'r ARhC a dogfennau cysylltiedig CTRhCC.

## 3.4 ADBORTH O'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

3.4.1 Gofynnodd arolwg yr ymgynghoriad cyhoeddus i ymatebwyr am adborth ar yr elfennau canlynol o CTRhCC:

- Amcanion
- Polisïau
- Cynlluniau
- Cwestiynau agored – gan ganiatáu i sylwadau eraill gael eu cyflwyno

3.4.2 Mae'r tudalennau canlynol yn nodi'r ymatebion a roddwyd i'r cwestiynau hyn yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus.

## 3.5 AMCANION Y CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL

3.5.1 Mae'r weledigaeth a'r amcanion yn nodi beth mae CTRhCC yn ceisio ei gyflawni a sut y bydd yn rhoi sylw i'r materion a nodwyd, ac ar y un pryd alinio â blaenoriaethau ac uchelgeisiau Llwybr Newydd. Mae'r weledigaeth a'r amcanion hefyd wedi cael eu llywio gan adborth rhanddeiliaid a dderbyniwyd drwy weithgareddau ymgysylltu.

3.5.2 Y weledigaeth hirdymor ar gyfer CTRhCC yw:

> *"System drafnidiaeth wledig hygyrch, carbon isel, effeithlon, a chysylltiedig sy'n cefnogi twf economaidd cynaliadwy, cymunedau llewyrchus a diwylliant bywiog o fewn rhanbarth arbennig Canolbarth Cymru."*

3.5.3 Amcanion CTRhCC sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yw:

- Amcan 1: Gwella **mynediad i bawb** i gyflogaeth, addysg, gofal iechyd, a gwasanaethau allweddol eraill, gan gynnwys mynediad i feysydd hamdden (megis Parciau Cenedlaethol) a chysylltiadau gwell rhwng cymunedau sy'n cydnabod pwysigrwydd hygyrchedd i gynhwysiant cymdeithasol a chysylltiad cymdeithasol.
- Amcan 2: Galluogi, annog a'i wneud yn hawdd i bobl **ddewis opsiynau trafnidiaeth a theithio mwy cynaliadwy**, trwy gynyddu gwybodaeth, hyder, dewis, argaeledd, atyniad ac ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Amcan 3: Gwella **cysylltedd trafnidiaeth strategol** o fewn a thu hwnt i Ganolbarth Cymru er mwyn cefnogi twf economaidd, cludo nwyddau a thwristiaeth gynaliadwy.
- Amcan 4: Cyflawni **newid moddol** i ddulliau teithio mwy cynaliadwy.
- Amcan 5: Cynyddu **lefelau cerdded, beicio ac olwyno** yng Nghanolbarth Cymru.
- Amcan 6: Lleihau **effeithiau amgylcheddol trafnidiaeth**, megis drwy leihau'r defnydd o danwydd ffosil, cynnydd yn y defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn a chysylltedd digidol gwell.
- Amcan 7: Gwella **cydnerthedd, diogelwch a gwneud defnydd gwell** o'r system drafnidiaeth bresennol.
- Amcan 8: Gwella **cyfnewid ac integreiddio** rhwng dulliau teithio cynaliadwy o fewn cymunedau


### 3.5.4 ADBORTH A GAFWYD AR YR AMCANION

3.5.5 Gofynnodd arolwg yr ymgynghoriad am adborth ar berthnasedd amcanion CTRhCC o ran rhoi sylw i'r heriau a wynebir yn y rhanbarth. Mae'r adran ganlynol yn nodi'r adborth a gafwyd ar berthnasedd yr amcanion.

## AMCAN 1: GWELLA MYNEDIAD I BAWB

3.5.6 Mae Ffigur 3-1 yn dangos yr ymatebion i Amcan 1. Cytunodd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr fod Amcan 1 yn berthnasol ar y cyfan (70% o'r ymatebion) o ran rhoi sylw i'r heriau a wynebir yn y rhanbarth, gyda 52% yn dewis 'perthnasol iawn' ac 18% yn dewis 'eithaf perthnasol'. Fodd bynnag, nododd nifer o ymatebwyr hefyd fod Amcan 1 yn 'amherthnasol iawn' (15%). At ei gilydd, roedd ymateb cadarnhaol i Amcan 1.


**Ffigur 3-1 – Amcan 1: Gwella mynediad i bawb – adborth**




## AMCAN 2: ANNOG POBL I DDEWIS OPSIYNAU TRAFNIDIAETH A THEITHIO MWY CYNALIADWY

3.5.7 Mae Ffigur 3-2 yn dangos yr ymatebion i Amcan 2. Mae canran fawr o'r ymatebwyr yn cytuno bod Amcan 2 yn 'berthnasol iawn' (38%). Mae gweddill yr ymatebion (ac eithrio'r 10% a ymatebodd 'ddim yn berthnasol nac yn amherthnasol') wedi'u rhannu'n gymharol gyfartal rhwng 'eithaf perthnasol' (18%), 'amherthnasol iawn' (17%), ac 'eithaf amherthnasol' (16%). Mae hyn yn dangos, er bod cefnogaeth gyffredinol ar gyfer Amcan 2, mae barn gymysg am ei berthnasedd o ran rhoi sylw i'r heriau a wynebir yn y rhanbarth. Mae hyn yn dangos yr angen am bolisïau newid ymddygiad i godi ymwybyddiaeth o fuddion teithio cynaliadwy.


**Ffigur 3-2 – Amcan 2: Annog teithio cynaliadwy – adborth**




## AMCAN 3: GWELLA CYSYLLTEDD TRAFNIDIAETH STRATEGOL

3.5.8 Mae Ffigur 3-3 yn dangos yr ymatebion i Amcan 2. Mae'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno bod Amcan 3 yn berthnasol (74% o'r ymatebion) o ran rhoi sylw i'r heriau a wynebir yn y rhanbarth, gyda 53% yn dewis 'perthnasol iawn' a 21% yn dewis 'eithaf perthnasol'. Fodd bynnag, dewisodd 17% o'r ymatebwyr 'amherthnasol iawn' (17%). At ei gilydd, roedd ymateb cadarnhaol i Amcan 3.


**Ffigur 3-3 – Amcan 3: Gwella cysylltedd trafnidiaeth strategol – adborth**




## AMCAN 4: NEWID MODDOL I DDULLIAU TEITHIO MWY CYNALIADWY

3.5.9 Mae Ffigur 3-4 yn dangos yr ymatebion i Amcan 4. O'r canlyniadau, nododd 34% o'r ymatebion fod Amcan 4 yn 'berthnasol iawn'. Roedd gweddill yr ymatebion (ac eithrio'r 13% a ddewisodd 'ddim yn berthnasol nac yn amherthnasol') wedi'u rhannu'n gymharol gyfartal rhwng 'eithaf perthnasol' (19%), 'amherthnasol iawn' (18%) ac 'eithaf amherthnasol' (15%). Mae hyn yn dangos, er bod cefnogaeth gyffredinol ar gyfer Amcan 4, mae barn gymysg am ei berthnasedd o ran rhoi sylw i heriau'r rhanbarth. Mae hyn yn dangos yr angen am bolisïau newid ymddygiad i godi ymwybyddiaeth o fuddion dulliau teithio cynaliadwy.


**Ffigur 3-4 – Amcan 4: Newid moddol i ddulliau teithio mwy cynaliadwy – adborth**




## AMCAN 5: CYNYDDU LEFELAU CERDDED, BEICIO AC OLWYNO

3.5.10 Mae Ffigur 3-5 yn dangos yr ymatebion i Amcan 5. Cafwyd nifer tebyg o ymatebion ar gyfer pob ateb, gyda 'perthnasol iawn' ac 'amherthnasol iawn' yn derbyn 28% a 24% o'r ymatebion. Cafodd 'eithaf perthnasol' 20% o'r ymatebion hefyd o'i gymharu ag 13% ar gyfer 'eithaf amherthnasol', gan ddangos boddhad ychydig yn fwy cadarnhaol yn gyffredinol ar gyfer Amcan 5, er bod tystiolaeth o farn gymysg. Mae hyn yn dangos yr angen am bolisïau newid ymddygiad i godi ymwybyddiaeth o fuddion cerdded, beicio ac olwyno.

**Ffigur 3-5 – Amcan 5: Cynyddu lefelau cerdded, beicio ac olwyno – adborth**





## AMCAN 6: LLEIHAU EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL TRAFNIDIAETH

3.5.11 Mae Ffigur 3-6 yn dangos yr ymatebion i Amcan 6. Dewisodd canran fawr o'r ymatebwyr 'perthnasol iawn' (36%). Mae gweddill yr ymatebion wedi'u rhannu'n gymharol gyfartal rhwng 'eithaf perthnasol' (18%), 'eithaf amherthnasol' (15%) ac 'amherthnasol iawn' (15%). Dywedodd 16% arall o'r ymatebwyr fod yr amcan 'ddim yn berthnasol nac yn amherthnasol'. Mae hyn yn dangos, er bod cefnogaeth gyffredinol ar gyfer Amcan 6, mae barn gymysg am ei berthnasedd. Mae hyn yn dangos

yr angen am bolisïau newid ymddygiad i godi ymwybyddiaeth o fuddion teithio cynaliadwy er mwyn lleihau effaith amgylcheddol trafnidiaeth.


**Ffigur 3-6 – Amcan 6: Lleihau effeithiau amgylcheddol trafnidiaeth – adborth**




## AMCAN 7: GWELLA CYDNERTHEDD, DIOGELWCH A GWNEUD DEFNYDD GWELL O'R SYSTEM DRAFNIDIAETH BRESENNOL

3.5.12 Mae Ffigur 3-7 yn dangos yr ymatebion i Amcan 7. Mae mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno bod Amcan 7 yn berthnasol ar y cyfan (72% o'r ymatebion) o ran rhoi sylw i'r heriau a wynebir yn y rhanbarth, gyda 47% yn dewis 'perthnasol iawn' a 25% yn dewis 'eithaf perthnasol'. Fodd bynnag, nododd nifer o ymatebwyr hefyd fod Amcan 7 yn 'amherthnasol iawn' (15%). Mae hyn yn dangos adborth cadarnhaol ar y cyfan ar gyfer Amcan 7.


**Ffigur 3-7 – Amcan 7: Gwella cydnerthedd, diogelwch a gwneud defnydd gwell o'r system drafnidiaeth bresennol – adborth**



## AMCAN 8: GWELLA CYFNEWID AC INTEGREIDDIO RHWNG DULLIAU TEITHIO CYNALIADWY

3.5.13 Mae Ffigur 3-8 yn dangos yr ymatebion i Amcan 8. Mae mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yn cytuno bod Amcan 8 yn berthnasol ar y cyfan (68% o'r ymatebion) o ran rhoi sylw i'r heriau a wynebir yn y rhanbarth, gyda 42% yn dewis 'perthnasol iawn' a 24% yn dewis 'eithaf perthnasol'. Fodd bynnag, nododd nifer o ymatebwyr hefyd fod Amcan 7 yn 'amherthnasol iawn' (15%). Mae hyn yn dangos adborth cadarnhaol ar y cyfan ar gyfer Amcan 8.

**Ffigur 3-8 – Amcan 8: Gwella cyfnewid ac integreiddio rhwng dulliau teithio cynaliadwy – adborth**




## CRYNODEB

3.5.14 Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos mai'r amcan a berfformiodd orau oedd Amcan 3 (*Gwella cysylltedd trafnidiaeth strategol o fewn a thu hwnt i Ganolbarth Cymru er mwyn cefnogi twf economaidd, cludo nwyddau a thwristiaeth gynaliadwy*), a bod 74% o'r ymatebwyr wedi nodi bod yr amcan yn berthnasol.

3.5.15 Yr amcan a berfformiodd waethaf oedd Amcan 5 (*Cynyddu lefelau cerdded, beicio ac olwyno yng Nghanolbarth Cymru*), ac o'r rhain nododd 38% o'r ymatebwyr nad oedd yr amcan yn berthnasol o ran rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu'r rhanbarth.

3.5.16 Fodd bynnag, nodir bod yr amcanion wedi perfformio'n gymharol dda ar y cyfan, gyda mwy o ymatebion 'perthnasol' nag 'amherthnasol' ar draws yr wyth amcan.

## 3.6 POLISÏAU'R CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL

3.6.1 Datblygwyd polisïau CTRhCC yn unol â chanllawiau CTRh Llywodraeth Cymru a'u nod yw:

- Cyflawni gweledigaeth ac amcanion CTRhCC
- Gosod y fframwaith ar gyfer y prosiectau a'r rhaglenni yn y CCTRh
- Cefnogi gweledigaeth ac uchelgeisiau Llwybr Newydd, gyda phwyslais ar y tair blaenoriaeth tymor byr
- Cefnogi'r cynlluniau bach a'r llwybrau trawsbynciol yn Llwybr Newydd

3.6.2 O fewn CTRhCC mae'r polisïau wedi'u categoreiddio fel a ganlyn:

- Polisïau cynllunio defnydd tir
- Polisïau hygyrchedd
- Polisïau newid ymddygiad
- Polisïau cysylltedd strategol
- Polisïau newid moddol
- Polisïau cerdded, beicio ac olwyno
- Polisïau amgylcheddol
- Polisïau cydnerthedd, diogelwch a gwneud defnydd gwell
- Polisïau cyfnewid ac integreiddio


**ADBORTH A GAFWYD AR Y POLISÏAU**

3.6.3 Gofynnodd arolwg yr ymgynghoriad am adborth ar gyfer pa mor effeithiol fyddai'r polisïau arfaethedig o ran rhoi sylw i'r heriau a wynebir yn y rhanbarth. Mae'r adran ganlynol yn nodi'r adborth a dderbyniwyd ar berthnasedd y polisïau.

## POLISÏAU CYNLLUNIO DEFNYDD TIR

3.6.4 Mae Ffigur 3-9 yn dangos yr ymatebion i'r polisïau cynllunio defnydd tir. Mae'r canlyniadau'n dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn credu bod y polisïau cynllunio defnydd tir 'ddim yn effeithiol nac yn aneffeithiol' (31%). O'r ymatebwyr a ddangosodd duedd, mae rhaniad cymharol gyfartal rhwng 'eithaf effeithiol' (22%), 'eithaf aneffeithiol' (20%) ac 'aneffeithiol iawn' (21%). Dim ond 6% arall o'r ymatebwyr a ddywedodd fod y polisïau cynllunio defnydd tir yn 'effeithiol iawn'. Mae hyn yn dangos bod yr ymatebion i'r polisïau defnydd tir yn gymysg, ond ar y cyfan yn fwy aneffeithiol nag effeithiol o ran rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu Canolbarth Cymru. Mae hyn yn dangos yr angen am bolisïau newid ymddygiad i addysgu am fanteision gweithredu polisïau cynllunio defnydd tir.


**Ffigur 3-9 – Polisïau cynllunio defnydd tir – adborth**




## POLISÏAU HYGYRCHEDD

3.6.5 Mae Ffigur 3-10 yn dangos yr ymatebion i'r polisïau hygyrchedd. Mae nifer cymharol gyfartal o ymatebion rhwng y rhai sy'n credu bod y polisïau hygyrchedd yn effeithiol ar y cyfan (36%) ac yn aneffeithiol (40%). Fodd bynnag, mae canran ychydig yn uwch o ymatebwyr yn nodi bod y polisïau'n aneffeithiol (dywedodd 18% 'aneffeithiol iawn' ond dim ond 7% dywedodd 'effeithiol iawn'). Mae hyn yn dangos, ar y cyfan, bod y polisïau hygyrchedd yn cael eu hystyried yn aneffeithiol i raddau helaeth o ran rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu Canolbarth Cymru. Mae hyn yn dangos yr angen am bolisïau newid ymddygiad i addysgu am fanteision gweithredu polisïau hygyrchedd.


**Ffigur 3-10 – Polisïau hygyrchedd – adborth**




## POLISÏAU NEWID YMDDYGIAD

3.6.6 Mae Ffigur 3-11 yn dangos yr ymatebion i'r polisïau newid ymddygiad. Mae'r data'n dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn credu bod y polisïau newid ymddygiad yn 'aneffeithiol iawn' (30%). Mae hyn yn cael ei ddilyn yn agos gan ymatebion 'ddim yn effeithiol nac yn aneffeithiol' (26%) ac ymatebion 'eithaf effeithiol' (23%), gyda 5% o'r ymatebwyr yn dewis 'effeithiol iawn'. Ar y cyfan, mae'r ymatebwyr yn credu bod y polisïau newid ymddygiad yn aneffeithiol o ran rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu Canolbarth Cymru. Mae hyn yn dangos yr angen i gyflwyno polisïau newid ymddygiad.

**Ffigur 3-11 – Polisïau newid ymddygiad – adborth**





## POLISÏAU CYSYLLTEDD STRATEGOL

3.6.7 Mae Ffigur 3-12 yn dangos yr ymatebion i'r polisïau cysylltedd strategol. Mae'r data'n dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn credu bod y polisïau cysylltedd strategol yn 'eithaf effeithiol' (30%) a bod 7% arall yn credu eu bod yn 'effeithiol iawn'. Cytunodd ychydig yn llai o ymatebwyr fod y polisïau'n aneffeithiol ar y cyfan, gyda 22% yn ymateb 'eithaf aneffeithiol' a 20% 'aneffeithiol iawn'. Mae hyn yn

dangos bod ymatebwyr yn credu bod y polisïau cysylltedd strategol yn effeithiol o ran rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu Canolbarth Cymru.


**Ffigur 3-12 – Polisïau cysylltedd strategol – adborth**




## POLISÏAU NEWID MODDOL

3.6.8 Mae Ffigur 3-13 yn dangos yr ymatebion adborth i'r polisïau newid moddol. Mae'r canlyniadau'n dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn credu bod y polisïau newid moddol 'ddim yn effeithiol nac yn aneffeithiol' (28%). O'r ymatebwyr a ddangosodd duedd, dywedodd 46% eu bod yn aneffeithiol (23% 'aneffeithiol iawn' a 23% 'eithaf aneffeithiol'), ond dim ond 26% ddywedodd eu bod yn effeithiol (6% 'effeithiol iawn' a 20% 'eithaf effeithiol'). Mae hyn yn dangos, er bod barn gymysg am y polisïau ar y cyfan, bod mwy o gytundeb eu bod ar yr ochr mwy aneffeithiol o ran rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu Canolbarth Cymru. Mae hyn yn dangos yr angen am bolisïau newid ymddygiad i addysgu am fanteision gweithredu polisïau newid moddol.


**Ffigur 3-13 – Polisïau newid moddol – adborth**



## POLISÏAU CERDDED, BEICIO AC OLWYNO

3.6.9 Mae Ffigur 3-14 yn dangos yr ymatebion i'r polisïau newid moddol. Mae rhaniad cymharol gyfartal rhwng canran yr ymatebwyr a ddywedodd fod y polisïau cerdded, beicio ac olwyno yn 'aneffeithiol iawn' (26%), 'eithaf effeithiol' (25%) ac 'eithaf aneffeithiol' (23%). Fodd bynnag, dim ond 6% nododd eu bod yn 'effeithiol iawn'. Mae'r canlyniadau'n dangos bod yr ymatebwyr yn credu bod y polisïau cerdded, beicio ac olwyno yn aneffeithiol o ran rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu Canolbarth Cymru. Mae hyn yn dangos yr angen am bolisïau newid ymddygiad i addysgu am fanteision gweithredu polisïau cerdded, beicio ac olwyno.


**Ffigur 3-14 – Polisïau cerdded, beicio ac olwyno – adborth**




## POLISÏAU AMGYLCHEDDOL

3.6.10 Mae Ffigur 3-15 yn dangos yr ymatebion i'r polisïau amgylcheddol. Mae nifer cymharol gyfartal o ymatebion rhwng y rhai sy'n credu bod y polisïau amgylcheddol yn effeithiol ar y ganran (36%) ac aneffeithiol (40%). Fodd bynnag, mae canran ychydig yn fwy o ymatebwyr yn cytuno'n gryf bod y polisïau'n aneffeithiol (dywedodd 23% 'aneffeithiol iawn' ond dim ond 9% dywedodd 'effeithiol iawn'). Mae hyn yn dangos, ar y cyfan, bod ymatebwyr yn credu bod y polisïau amgylcheddol yn aneffeithiol o ran rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu Canolbarth Cymru. Mae hyn yn dangos yr angen am bolisïau newid ymddygiad i addysgu am fanteision gweithredu polisïau amgylcheddol.


**Ffigur 3-15 – Polisïau amgylcheddol – adborth**




## POLISÏAU CYDNERTHEDD, DIOGELWCH A GWNEUD DEFNYDD GWELL

3.6.11 Mae Ffigur 3-16 yn dangos yr ymatebion i'r polisïau cydnerthedd, diogelwch a gwneud defnydd gwell o drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r canlyniadau'n dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr o'r farn bod y polisïau 'ddim yn effeithiol nac yn aneffeithiol' (27%). O'r ymatebwyr a ddangosodd duedd, mae rhaniad cyfartal rhwng 'eithaf effeithiol', 'eithaf aneffeithiol', ac 'aneffeithiol iawn' (22% yr un). Fodd bynnag, dim ond 8% nododd 'effeithiol iawn'. Mae hyn yn dangos, er bod barn ar y polisïau yn gymysg ar y cyfan, mae ychydig mwy o gytundeb eu bod ar yr ochr aneffeithiol o ran rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu Canolbarth Cymru. Mae hyn yn dangos yr angen am bolisïau newid ymddygiad i addysgu am fanteision gweithredu polisïau cydnerthedd, diogelwch a gwneud defnydd gwell.

**Ffigur 3-16 – Polisïau cydnerthedd, diogelwch a gwneud defnydd gwell – adborth**





## CYFNEWID AC INTEGREIDDIO

3.6.12 Mae Ffigur 3-17 yn dangos yr ymatebion i'r polisïau cyfnewid ac integreiddio. Mae rhaniad cymharol gyfartal rhwng canran yr ymatebwyr a ddywedodd fod y polisïau cyfnewid ac integreiddio yn 'eithaf effeithiol' ac yn 'eithaf aneffeithiol' (24% yr un) a 'ddim yn effeithiol nac yn aneffeithiol' ac yn

'aneffeithiol iawn' (22% yr un). Felly, mae'r canlyniadau'n dangos, ar y cyfan, bod yr ymatebwyr yn credu bod y polisïau cyfnewid ac integreiddio yn aneffeithiol o ran rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu Canolbarth Cymru. Mae hyn yn dangos yr angen am bolisïau newid ymddygiad i addysgu am fanteision gweithredu polisïau cyfnewid ac integreiddio.

**Ffigur 3-17 – Polisïau cyfnewid ac integreiddio – adborth**




## CRYNODEB

3.6.13 Mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu mai'r polisïau sy'n perfformio orau yw'r *polisïau hygyrchedd, polisïau cysylltedd strategol,* a'r *polisïau amgylcheddol.* Roedd y polisïau oedd wedi perfformio orau wedi cael ymatebion cadarnhaol ar gyfer effeithiolrwydd (36% yr un). O'r rhain, y polisïau amgylcheddol gafodd y nifer fwyaf o ymatebion 'effeithiol iawn' (6%).

3.6.14 Nodwyd mai'r polisïau *cerdded, beicio ac olwyno* oedd y rhai mwyaf aneffeithiol (48% o'r ymatebwyr) o ran rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu Canolbarth Cymru.

3.6.15 At ei gilydd, barnwyd bod pob un o'r naw grŵp polisi yn fwy aneffeithiol nag effeithiol, gyda nifer yr ymatebion 'eithaf aneffeithiol' ac 'aneffeithiol iawn' yn sylweddol uwch na nifer yr ymatebion 'effeithiol'. Er bod hyn yn dangos bod y rhai a gwblhaodd yr arolwg yn ystyried bod rhai o'r polisïau'n aneffeithiol, nid yw hyn yn golygu bod angen eu newid. Nid y polisïau sy'n anghywir er mwyn bwrw ymlaen â newid effeithiol ond yn hytrach dealltwriaeth anghywir y cyhoedd o'r hyn sy'n gysylltiedig a beth sydd ei angen i sicrhau newid. Felly, mae hyn yn dangos yr angen i gyflwyno polisïau newid ymddygiad i gyflawni amcanion CTRhCC.

## 3.7 CYNLLUNIAU'R CYNLLUN CYFLAWNI TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL

3.7.1 Mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol (CCTRh) yn rhaglen wedi'i hariannu gan grant cyfalaf gyda rhestr wedi'i blaenoriaethu o'r cynlluniau a'r prosiectau penodol yn y rhanbarth y mae awdurdodau lleol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth yn bwriadu eu datblygu i helpu i gyflawni amcanion CTRhCC a gweithredu Llwybr Newydd ar lefel ranbarthol.

3.7.2 Mae'r CCTRh yn canolbwyntio ar y prosiectau a'r cynlluniau tymor byr hynny sy'n flaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf hyd at 2030. Fodd bynnag, mae rhai cynigion tymor canolig a thymor hwy hefyd wedi'u cynnwys yn CTRhCC er mwyn sicrhau bod cynlluniau o'r fath yn cael eu nodi ar gyfer cyllid datblygu lle bo angen, a sicrhau bod rhaglen barhaus o gynlluniau CTRhCC yn cael ei datblygu.

3.7.3 Mae cynlluniau o fewn y CCTRh wedi'u categoreiddio fel a ganlyn:

- Cysylltedd strategol
- Cerdded, beicio ac olwyno
- Trafnidiaeth gyhoeddus ac integreiddio
- Diogelwch ar y ffyrdd
- Cerbydau gwyrddach
- Cludiant cymunedol
- Newid ymddygiad


**ADBORTH AR GYNLLUNIAU**

3.7.4 Gofynnwyd i aelodau'r cyhoedd am eu barn ynghylch pa mor effeithiol fyddai'r cynlluniau arfaethedig sydd wedi'u cynnwys yn CTRhCC o ran rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu Canolbarth Cymru. Mae'r adran ganlynol yn nodi'r adborth a gafwyd ar berthnasedd y cynlluniau.

## CYNLLUNIAU CYSYLLTEDD STRATEGOL

3.7.5 Mae Ffigur 3-18 yn dangos yr ymatebion i'r cynlluniau cysylltedd strategol. Mae'r canlyniadau'n dangos bod canran sylweddol o'r ymatebwyr yn credu bod y polisïau 'ddim yn effeithiol nac yn aneffeithiol' (27%). O'r ymatebwyr a ddangosodd duedd, roedd 27% arall yn credu bod y cynlluniau'n 'eithaf effeithiol', tra dywedodd 6% eu bod yn 'effeithiol iawn'. Fodd bynnag, roedd canran ychydig yn uwch o ymatebwyr wedi nodi bod y cynllun yn aneffeithiol, gan gynnwys 16% ar gyfer 'eithaf aneffeithiol' a 23% ar gyfer 'aneffeithiol iawn'. Felly, mae'r canlyniadau'n dangos, ar y cyfan, bod ymatebwyr yn credu bod y cynlluniau cysylltedd strategol yn fwy aneffeithiol nag y maent yn effeithiol o ran rhoi sylw i'r heriau y mae Canolbarth Cymru yn eu hwynebu, er bod y gwahaniaeth yn y nifer yn fach iawn.


**Ffigur 3-18 – Cynlluniau cysylltedd strategol – adborth**




## CYNLLUNIAU CERDDED, BEICIO AC OLWYNO

3.7.6 Mae Ffigur 3-19 yn dangos yr ymatebion adborth i'r cynlluniau cerdded, beicio ac olwyno. Mae rhaniad cymharol gyfartal rhwng y canlyniadau. Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd fod y cynlluniau'n 'eithaf effeithiol' ac yn 'aneffeithiol iawn' yn 25% (yr un), gyda 21% pellach (yr un) yn nodi eu bod 'ddim yn effeithiol nac yn aneffeithiol' neu'n 'eithaf aneffeithiol'. Felly, mae'r canlyniadau'n dangos, ar y cyfan, bod ymatebwyr yn credu bod y cynlluniau cerdded, beicio ac olwyno yn aneffeithiol ar y cyfan o ran rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu Canolbarth Cymru.


**Ffigur 3-19 – Cynlluniau cerdded, beicio ac olwyno – adborth**




## CYNLLUNIAU TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS AC INTEGREIDDIO

3.7.7 Mae Ffigur 3-20 yn dangos yr ymatebion i'r cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus ac integreiddio. Mae'r canlyniadau'n dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn credu bod y cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus ac integreiddio yn 'eithaf effeithiol' (28%), gydag 11% pellach yn nodi eu bod yn 'effeithiol iawn'. Fodd bynnag, mae canran gyffredinol yr ymatebwyr sy'n credu bod y cynlluniau'n aneffeithiol ychydig yn uwch (45%), a'i rhannu'n gymharol gyfartal rhwng 'eithaf aneffeithiol' (21%) neu 'aneffeithiol iawn' (24%). Felly, mae'r canlyniadau'n dangos, ar y cyfan, bod ymatebwyr yn credu bod y cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus ac integreiddio yn aneffeithiol o ran rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu Canolbarth Cymru.

**Ffigur 3-20 – Cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus ac integreiddio**





## CYNLLUNIAU DIOGELWCH AR Y FFYRDD

3.7.8 Mae Ffigur 3-21 yn dangos yr ymatebion i'r cynlluniau diogelwch ar y ffyrdd. Mae'r canlyniadau'n dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn credu bod y polisïau cynllunio defnydd tir 'ddim yn effeithiol nac yn aneffeithiol' (30%). O'r ymatebwyr a ddangosodd duedd, mae rhaniad cymharol gyfartal

rhwng 'eithaf effeithiol' (22%), 'eithaf aneffeithiol' (18%) ac 'aneffeithiol iawn' (23%). Nododd 8% arall o'r ymatebwyr fod y cynllun diogelwch ar y ffyrdd yn 'effeithiol iawn'. Mae hyn yn dangos bod yr ymatebion i'r cynlluniau diogelwch ar y ffyrdd yn gymysg ond ar y cyfan yn fwy aneffeithiol o ran rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu Canolbarth Cymru.


**Ffigur 3-21 – Cynlluniau diogelwch ar y ffyrdd – adborth**




## CYNLLUNIAU CYDNERTHEDD Y RHWYDWAITH TRAFNIDIAETH

3.7.9 Mae Ffigur 3-22yn dangos yr ymatebion i'r cynlluniau diogelwch ar y ffyrdd. Mae'r canlyniadau'n dangos bod mwyafrif bach o'r ymatebwyr yn credu bod y cynlluniau cydnerthedd 'ddim yn effeithiol nac yn aneffeithiol' (28%). O'r ymatebwyr a ddangosodd duedd, nododd mwy eu bod yn aneffeithiol nag yn effeithiol (24%) gyda 23% yn nodi eu bod yn 'eithaf aneffeithiol' ac yn 'aneffeithiol iawn', tra bod 17% yn nodi eu bod yn 'eithaf effeithiol' a dim ond 8% a ymatebodd eu bod yn 'effeithiol iawn'. Felly, mae'r canlyniadau'n dangos, ar y cyfan, bod yr ymatebwyr yn credu bod y cynlluniau cydnerthedd yn aneffeithiol o ran rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu Canolbarth Cymru.


**Ffigur 3-22 – Cynlluniau cydnerthedd y rhwydwaith trafnidiaeth – adborth**



## CYNLLUNIAU CERBYDAU GWYRDDACH

3.7.10 Mae Ffigur 3-23 yn dangos yr ymatebion adborth i'r cynlluniau cerbydau gwyrddach. Mae'r canlyniadau'n dangos bod canran fawr o'r ymatebwyr yn credu bod y cynllun cerbydau gwyrddach yn 'aneffeithiol iawn' (25%), gydag 18% arall yn nodi eu bod yn 'eithaf aneffeithiol'. Mewn cyferbyniad, dim ond 20% o'r ymatebwyr sy'n credu bod y cynlluniau'n 'eithaf effeithiol' a dim ond 9% sy'n credu eu bod yn 'effeithiol iawn'. Felly, mae'r canlyniadau'n dangos, ar y cyfan, bod yr ymatebwyr yn credu bod y cynlluniau cerbydau gwyrddach yn aneffeithiol o ran rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu Canolbarth Cymru.


**Ffigur 3-23 – Cynlluniau cerbydau gwyrddach – adborth**




## CYNLLUNIAU CLUDIANT CYMUNEDOL

3.7.11 Mae Ffigur 3-24 yn dangos yr ymatebion i'r cynlluniau cludiant cymunedol. Mae'r canlyniadau'n dangos bod rhaniad cymharol gyfartal rhwng yr ymatebwyr sy'n credu bod y cynlluniau'n 'eithaf aneffeithiol' (21%), 'eithaf aneffeithiol' (25%) ac 'eithaf effeithiol' (23%). Nododd 11% arall eu bod yn 'effeithiol iawn'. Ar y cyfan, mae'r canlyniadau'n dangos bod yr ymatebwyr yn credu bod y cynlluniau cludiant cymunedol yn aneffeithiol o ran rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu Canolbarth Cymru.


**Ffigur 3-24 – Cynlluniau cludiant cymunedol – adborth**



## CYNLLUNIAU NEWID YMDDYGIAD

3.7.12 Mae Ffigur 3-25 yn dangos yr ymatebion i'r cynlluniau newid ymddygiad. Mae'r canlyniadau'n dangos bod nifer tebyg o ymatebwyr yn credu bod y cynlluniau newid ymddygiad yn 'eithaf effeithiol' (21%) ac yn 'eithaf aneffeithiol' (20%). Fodd bynnag, mae gwahaniaeth sylweddol yn y rhai oedd wedi dewis 'effeithiol iawn' (7%) ac 'aneffeithiol iawn' (29%), gydag 'aneffeithiol iawn' yn ffurfio'r mwyafrif o'r ymatebion yn gyffredinol. Felly, mae'r canlyniadau'n dangos bod ymatebwyr yn credu bod y cynlluniau newid ymddygiad yn aneffeithiol o ran rhoi sylw i'r heriau y mae Canolbarth Cymru yn eu hwynebu.

**Ffigur 3-25 – Cynlluniau newid ymddygiad – adborth**




## CRYNODEB

3.7.13 Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod yr ymatebwyr yn credu mai'r cynlluniau *trafnidiaeth gyhoeddus* fydd fwyaf effeithiol o ran rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu Canolbarth Cymru. O'r rhain, roedd 39% o'r ymatebwyr yn credu bod y cynlluniau trafnidiaeth gyhoeddus yn effeithiol o ran rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu Canolbarth Cymru.

3.7.14 Nodwyd mai'r cynlluniau *newid ymddygiad* oedd fwyaf aneffeithiol, a nododd 49% o'r ymatebwyr na fyddent yn effeithiol o ran rhoi sylw i'r heriau.

3.7.15 At ei gilydd, barnwyd bod pob un o wyth categori'r cynllun yn fwy aneffeithiol nag effeithiol, gyda nifer yr ymatebion ar gyfer 'eithaf aneffeithiol' ac 'aneffeithiol iawn' yn sylweddol uwch na nifer yr ymatebion ar gyfer 'effeithiol'.

## 3.8 ADBORTH CYFFREDINOL

3.8.1 Ochr yn ochr â chwestiynau penodol am amcanion, polisïau a chynlluniau CTRhCC, gofynnwyd nifer o gwestiynau agored gan gynnwys:

- Oes unrhyw faterion eraill y mae rhanbarth Canolbarth Cymru yn eu hwynebu y dylid rhoi sylw iddynt yn CTRhCC?
- Oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am CTRhCC?

3.8.2 Cafodd sawl thema gyffredin ei nodi yn y cwestiynau agored hyn. Roedd y rhain yn cynnwys:


- **Amheuaeth ynghylch CTRhCC:** Roedd rhai ymatebwyr yn amheus ynghylch a fyddai'r cynlluniau yn y cynllun yn cael eu cyflawni mewn gwirionedd.
- **Gwelliannau i wasanaethau bysiau:** Roedd awydd cryf i wella dibynadwyedd a fforddiadwyedd gwasanaethau bysiau.
- **Integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus:** Dangosodd adborth y dylai fod mesurau pellach i wella integreiddio bysiau a threnau ar draws y rhanbarth.
- **Gwledigrwydd Canolbarth Cymru:** Mynegodd ymatebwyr bryderon yn enwedig ynghylch y cynlluniau cerdded, beicio ac olwyno ac a fyddai'r rhain yn addas mewn ardaloedd gwledig.
- **Ymarferoldeb targedau Teithio Llesol:** Codwyd cwestiynau ynghylch a fyddai hyrwyddo cerdded, beicio ac olwyno yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.
- **Cyflawni'r cynllun:** Roedd sawl ymatebwr yn pryderu ynghylch y llwybrau ariannu ar gyfer y cynlluniau arfaethedig a nodir yn CTRhCC.
- **Cefnogaeth i'r cynllun:** Amheuon y gellid gweithredu CTRhCC heb y lefel o gefnogaeth sydd ei hangen gan Lywodraeth Cymru.
- **Hyd a chymhlethdod y cynllun:** Mynegodd ymatebwyr bryderon bod CTRhCC yn rhy hir a chymhleth.
- **Hyd a chymhlethdod yr arolwg:** Dangosodd yr adborth fod yr arolwg ymgynghori yn rhy hir a chymhleth i roi digon o sylwadau.

# 4 Y CAMAU NESAF

## 4.1 PUM FFORDD O WEITHIO

4.1.1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Pum Ffordd o Weithio wedi bod yn ganolog i ddatblygiad CTRhCC, gan ystyried effaith y Cynllun ar bobl sy'n byw ac yn ymweld â Chanolbarth Cymru. Mae Ffigur 4-1 yn nodi sut mae'r ymgynghoriad wedi cyd-fynd â'r Pum Ffordd o Weithio.

**Ffigur 4-1 – Pum Ffordd o Weithio ac ymgynghori**



## 4.2 DIWEDDARIADAU I CTRHCC

4.2.1 Gan ddefnyddio'r adborth a dderbyniwyd yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus CTRhCC, mae Tabl 4-1 yn nodi'r diweddariadau a wnaed i CTRhCC a'r dogfennau cysylltiedig gan gynnwys y Cynllun Monitro ac Asesu. Mae Tabl 4-2 yn nodi'r diweddariadau a wnaed i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS).

**Tabl 4-1 – Diweddariadau i CTRhCC**

| Adborth | Cam gweithredu |
|---|---|
| **Cynllun WCW-4:** Llwybr Glas Camlas Trefaldwyn (Llwybr aml-ddefnyddiwr) – Gweithredu llwybr cerdded, beicio ac olwyno ar hyd Camlas Trefaldwyn (y Trallwng i Lanymynech). Bydd angen codi 4 pont ffordd i greu'r llwybr.<br>Derbyniwyd yr adborth canlynol ar gyfer y cynllun hwn:<br>▪ Dylid diweddaru'r cynllun i gynnwys padlo a chychod.<br>▪ Dylid diweddaru ffordd y gamlas a'i hymestyn rhwng y Trallwng, y Drenewydd a Llanymynech.<br>▪ Byddai difrod ecolegol sylweddol pe bai'r pedair pont ffordd yn cael eu codi. Dylid dileu cyfeiriad at hyn o ddisgrifiad y cynllun. | Mae'r cyfeiriad at Gynllun WCW-4 wedi cael ei ddiweddaru i:<br>▪ Llwybr Glas Camlas Trefaldwyn (Llwybr aml-ddefnyddiwr): Gweithredu llwybr cerdded, beicio, olwyno a chychod ar hyd Camlas Trefaldwyn (y Trallwng, y Drenewydd i Lanymynech) i ddatgloi'r budd economaidd mwyaf a darparu llwybr teithio egnïol rhwng trefi'r Trallwng a'r Drenewydd. |
| Polisi cydnerthedd, diogelwch a gwneud defnydd gwell – Dylid diweddaru Res1 i gynnwys cyfeiriad at Gynllun Partneriaeth Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru sydd wrthi'n cael ei lunio. | Mae Res1 wedi cael ei ddiweddaru i:<br>▪ Parhau i ddarparu mesurau ac ymyriadau i leihau nifer a difrifoldeb gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a gwella diogelwch ar y ffyrdd, gan gyd-fynd â'r dull a nodir yn y Cynllun Partneriaeth Diogelwch ar y Ffyrdd sydd wrthi'n cael ei lunio. |
| Nid yw rhai o'r polisïau'n egluro sut y byddai datblygu economaidd, datblygu tai a chynllunio trefi yn cael eu cefnogi trwy gyflawni cynlluniau'r CTRhCC. | Mae'r polisïau canlynol wedi'u diweddaru i sicrhau eu bod yn dangos sut y bydd y themâu hyn yn cael eu cyflawni:<br>▪ Polisi Defnydd Tir – LUP1<br>▪ Polisi Defnydd Tir – LUP2 |

| | |
|---|---|
| | ▪ Polisi Defnydd Tir – LUP4<br>▪ Polisi Defnydd Tir – LUP5<br>▪ Polisi Newid Ymddygiad – Beh2<br>▪ Polisi Newid Ymddygiad – Beh3<br>▪ Polisi Cysylltedd Strategol – Conn6<br>▪ Polisi Cysylltedd Strategol – Conn13 |
| Dylid cyfeirio ymhellach at gludiant cymunedol ym mholisïau CTRhCC. | Mae Polisi Acc6 wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys cyfeiriad at wasanaethau cludiant cymunedol. Nodwyd hefyd yn y CTRh y dylai trafnidiaeth gymunedol barhau i gael ei hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. |
| Dylid cynnwys Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru yng Nghynllun Monitro a Gwerthuso CTRhCC fel dull o gasglu data. | Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso CTRhCC wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru. |
| Dylid asesu'r cynlluniau arfaethedig o fewn CTRhCC yn seiliedig ar amcanion y cynllun a'r gallu i'w gyflawni, nid amcanion y cynllun yn unig. | Defnyddiwyd Offeryn Blaenoriaethu Llywodraeth Cymru i ailasesu'r rhestr hir o gynlluniau yn erbyn amcanion y cynllun a'r gallu i'w gyflawni. Diweddarwyd y CCTRh i nodi'r blaenoriaethu newydd ar gyfer y cynlluniau. Diweddarwyd Atodiad 8 – Nodyn Offeryn Blaenoriaethu CTRhCC er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hyn hefyd. |
| Dylai'r CCTRh nodi'r awdurdod lleol neu'r corff ariannu sy'n gyfrifol am gyflawni'r cynllun. | Mae'r CCTRh wedi cael ei ddiweddaru i gategoreiddio'r cynlluniau yn ôl y themâu canlynol yn seiliedig ar eu perchnogaeth a'u llwybrau ariannu:<br>▪ Cynlluniau a Gyflawnir gan Awdurdodau Lleol<br>▪ Astudiaethau Awdurdod Lleol<br>▪ Cynlluniau a Gyflawnir gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru<br>▪ Arianwyr eraill |
| Dylid nodi rhaglen ariannu cyflawni ddilyniannol ar gyfer pob cynllun arfaethedig o fewn CTRhCC. | Mae rhaglen ariannu cyflawni dilyniannol wedi cael ei nodi ar gyfer Cynlluniau a Gyflwynir gan Awdurdodau Lleol CTRhCC. |

| | |
|---|---|
| Diffyg ystyriaethau ecolegol yn yr adolygiad o bolisïau, cynlluniau ac astudiaethau rhanbarthol a lleol. | Ystyried a chynnwys Datganiad Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru / Canolbarth Cymru yn adolygiad polisi'r CTRh. |
| Nid yw'r crynodeb o'r Achos dros Newid yn ystyried effaith llifogydd ar gymunedau ac integreiddio hyn i'r gymdeithas ehangach. | Rhoddwyd ystyriaeth i lifogydd a'u gallu i ynysu cymunedau gwledig, gan effeithio ar fynediad at wasanaethau yn y CTRh. |
| Nid yw ffynonellau tystiolaeth wedi cael eu hystyried yn y crynodeb o faterion allweddol megis cydnerthedd y rhwydwaith trafnidiaeth. | Ychwanegwyd ffynonellau tystiolaeth allweddol at Grynodeb yr Achos dros Newid y CTRh. |
| Polisi cydnerthedd, diogelwch a gwneud defnydd gwell – Nid yw Res5 yn ystyried effaith llifogydd ar y seilwaith. | Polisi wedi cael ei ddiweddaru i gyfeirio at lifogydd a'u heffaith ar y seilwaith. |
| Mae angen cryfhau rhai polisïau a'u cysylltiadau â materion a chyfleoedd. | Tynnwyd sylw at gyfleoedd ychwanegol a materion allweddol yn y polisïau. |
| Nid yw'r Cynllun Monitro a Gwerthuso yn cynnwys dangosyddion bioamrywiaeth fel mesur monitro. | Mae dangosyddion bioamrywiaeth wedi'u hychwanegu at y mesurau monitro y gellid eu defnyddio i asesu'r amcan – *Lleihau **effeithiau amgylcheddol trafnidiaeth**, megis drwy leihau defnydd o danwydd ffosil, cynnydd yn y defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn a chysylltedd digidol gwell.* |

**Tabl 4-2 – Diweddariadau i'r AAS**

| Adborth | Cam gweithredu |
|---|---|
| Ar gyfer cynlluniau presennol, byddai'n ddefnyddiol gwybod a yw'r holl ollyngfeydd presennol wedi'u mapio, pa rai sydd â chynlluniau Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) ac a oes unrhyw gynlluniau ynghylch cyfleoedd i ôl-osod Systemau Draenio Cynaliadwy er budd ansawdd dŵr (gellid targedu hyn at y ffyrdd hynny sydd â'r dwysedd traffig uchaf). | Mae Tabl 3-1 yn yr AAS wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys cyfleoedd ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy. Bydd y potensial i ôl-osod Systemau Draenio Cynaliadwy yn cael ei ystyried fesul achos yn ystod y cam cynllunio/dylunio manwl. |
| Awgrymu ARhC Lefel Cynllun ar gyfer SEA5 (mae'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn berthnasol ar Lefel Prosiect) yn Nhabl 8-1. | Mae Tabl 8-1 o'r AAS wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys y gofyniad ar gyfer ARhC Lefel Cynllun. |

| | |
|---|---|
| Nodi mai Budd Net Bioamrywiaeth yw fersiwn Cymru o Enillion Net Bioamrywiaeth, felly mae angen diweddaru'r cyfeiriadau hyn drwyddi draw o Enillion Net Bioamrywiaeth. | Pob cyfeiriad at Enillion Net Bioamrywiaeth wedi cael ei ddiweddaru i Fudd Net Bioamrywiaeth yn yr AAS. |
| Eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am bob mesur monitro, a mesurau sy'n dal yr effeithiau sylweddol, yn ogystal â'r ansicrwydd | Nid yw'n glir pwy fydd yn ymgymryd â'r gwaith monitro, felly mae testun wedi cael ei ychwanegu i nodi y bydd cyfrifoldeb yn cael ei neilltuo. Mae testun hefyd wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys monitro ar gyfer effeithiau arwyddocaol. |
| SEA8 – Risg Llifogydd – Byddai'n fuddiol cynnwys rhai o'r targedau o'r Asesiad Risg Llifogydd Strategol i'w rhestru fel ei bod hi'n glir beth sy'n cael ei fonitro. Mae croesi hefyd gydag SEA11 | Mae cyfeiriad at SEA8 yn yr AAS wedi cael ei ychwanegu at weithio gyda phrosesau naturiol a lliniaru risg llifogydd ar lefel safle, sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Risg Llifogydd Statudol. |
| SEA9: Ansawdd Dŵr a Phridd – Nid yw 'cydlynu â CNC' yn egluro pa fonitro sy'n cael ei gynnig. | Mae'r cyfeiriad at CNC yn monitro pridd wedi cael ei ddileu o SEA9 yn yr AAS ac mae testun wedi cael ei ychwanegu yn nodi y bydd data monitro ansawdd dŵr Cyfarwyddyd Fframwaith Dŵr CNC yn cael ei ddefnyddio i wirio am newidiadau mewn ansawdd dŵr. |
| Ar gyfer Sŵn ac Ansawdd Aer yn yr AAS, mae'r ddau gwestiwn arfarnu yn cynnwys awgrymiadau i ymgorffori atebion sy'n seiliedig ar natur i wella ansawdd aer a lleihau llygredd sŵn; nid yw'n glir sut mae'r rhain wedi cael eu nodi yn y gwaith monitro. | Cyfeiriad at fonitro nifer yr ymyriadau sy'n cynnwys seilwaith gwyrdd wedi'u hychwanegu. |
| SEA11 Cydnerthedd Newid Hinsawdd – Gellid monitro effeithiau tywydd eithafol eraill hefyd (gwres eithafol, toriadau pŵer, tanau gwyllt) a manylion pellach am yr hyn a fyddai'n cael ei fesur i ddeall y cydnerthedd (e.e. hyd yr amser y mae traciau rheilffordd wedi cau yn ogystal â nifer yr achosion). Byddai nifer y cynlluniau seilwaith gwyrdd neu Systemau Draenio Cynaliadwy a weithredir trwy gynlluniau CTRhCC hefyd yn fesur defnyddiol. | Mae cyfeiriad wedi cael ei ychwanegu at seilwaith gwyrdd neu Gynlluniau Systemau Draenio Cynaliadwy yn SEA11.<br><br>Mae cyfeiriad at fonitro ar gyfer tonnau gwres wedi cael ei gynnwys yn SEA11.<br><br>Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys ar y mesurau y gellid eu defnyddio i ddeall cydnerthedd. |

4.2.2 Derbyniwyd adborth ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) ynghylch yr angen i sgrinio ymhellach ar gyfer cynlluniau megis Estyn Llwybr Ystwyth – Cors Caron i Dregaron a Tyn-y-graig, Llwybr Glas Camlas Trefaldwyn, Cefnogi Prosiectau Cludo Nwyddau ar y Rheilffordd, Uwchraddio

Pont y Clas-ar-Wy a Gwelliannau Strategol i'r Rhwydwaith Ffyrdd. Cynhelir asesiad a sgrinio manwl o'r cynlluniau hyn fel rhan o Asesiad Priodol Cam 2 yr ARhC fel rhan o broses WelTAG.

## 4.3 Y CAMAU NESAF

4.3.1 Yn dilyn y diweddariadau hyn, bydd CTRhCC drafft yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a Llywodraeth Cymru i'w gytuno a'i lofnodi. Caiff CTRhCC terfynol ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2025.

## Atodiad A – Arolwg yr Ymgynghoriad Cyhoeddus

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth
Mid Wales Corporate Joint Committee

**Drafft Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru**

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) wedi'i baratoi gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru sy'n cwmpasu Awdurdodau Lleol Powys a Cheredigion mewn ymateb i ofynion Llywodraeth Cymru am bob CTRh gael eu cyflwyno erbyn 2025.

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) Canolbarth Cymru yn nodi ein dull at wella trafnidiaeth yn rhanbarth Canolbarth Cymru rhwng nawr a 2040 mewn ymateb i'n heriau presennol a'r dyfodol.

Pwrpas yr holiadur hwn yw i gasglu eich adborth ar ein gwelliannau trafnidiaeth arfaethedig ar gyfer Canolbarth Cymru, a nodir yn ein CTRh. Gallwch weld y CTRh a'r dogfennau ategol ar wefan Tyfu Canolbarth Cymru – bit.ly/TrafnidiaethCC

I gymryd rhan yn yr arolwg yn Saesneg: https://bit.ly/MWRTP

Bydd eich sylwadau yn hanfodol i'n helpu i drawsnewid trafnidiaeth yng Nghanolbarth Cymru yn y dyfodol. Byddwn yn ystyried yn ofalus yr holl adborth a gawn, a bydd yn cael ei ystyried pan rydym yn datblygu'r CTRh terfynol a gyhoeddir yng Ngwanwyn 2025. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein cynlluniau, anfonwch e-bost atom yma - tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru

Mae'r arolwg hwn wedi'i gomisiynu gan Gyngor Sir Ceredigion ar ran Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru - Tyfu Canolbarth Cymru, sy'n bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys. Bydd y data'n cael ei ddal gan Gyngor Sir Ceredigion, a dim ond staff awdurdodedig yng Nghyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys fydd yn cael mynediad i wybodaeth bersonol oni bai bod awdurdod penodol wedi'i roi i rannu gwybodaeth.

Chi sydd i benderfynu a ydych am gymryd rhan yn yr arolwg neu beidio. Mae gennych hawl i ofyn am i rywfaint neu'r cyfan o'r wybodaeth sy'n cofnodi'r rhan yr ydych wedi'i chwarae yn yr arolwg gael ei dileu neu'i dinistrio. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y modd y caiff y data hwn ei storio, mae croeso i chi anfon ebost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru

**Os gwelwch yn dda, cyflwynwch eich ymateb i ni erbyn 23:59y.p. ar ddydd Gwener 4 Ebrill 2025**

* Ofynnol

**Cyffredinol**

1. Sut daethoch chi i wybod am yr holiadur hwn? *

- ☐ Cyfryngau Cymdeithasol
- ☐ Papur newydd
- ☐ Cylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru
- ☐ Gwefan Tyfu Canolbarth Cymru
- ☐ Cylchlythyr Awdurdod Lleol
- ☐ Gwefan yr Awdurdod Lleol
- ☐ Ar lafar gwlad
- ☐ Business News Wales
- ☐ Arall

**Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru**

2. I ba raddau ydych chi'n meddwl bod amcanion (Tudalen 33 o CTRh) yn berthnasol i'r materion a wynebir gan Ganolbarth Cymru? (llenwch y matrics i ddangos i ba raddau rydych chi'n meddwl bod amcanion CTRh yn berthnasol) *

| | Amherthnasol iawn | Eithaf amherthnasol | Ddim yn berthnasol nac yn amherthnasol | Eithaf perthnasol | Perthnasol iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1:** Gwella mynediad am bawb | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Amcan 2:** Annog pobl i ddewis opsiynau trafnidiaeth a theithio mwy cynaliadwy | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Amcan 3:** Gwella cysylltedd trafnidiaeth strategol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Amcan 4:** Newid dulliau teithio i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Amcan 5:** Cynyddu lefelau cerdded, beicio ac olwynio | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Amcan 6:** Lleihau yr effeithiau amgylcheddol gan drafnidiaeth | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Amcan 7:** Gwella ystwythder, diogelwch a gwneud gwell defnydd o'r system drafnidiaeth bresennol | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Amcan 8:** Gwella cyfnewid ac integreiddio rhwng dulliau trafnidiaeth cynaliadwy | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

3. A oes unrhyw amcanion y dylid eu cynnwys yn y CTRh nad ydynt wedi'u rhestru ar hyn o bryd?

4. Pa mor fodlon ydych chi bydd polisïau'r CTRh yn mynd i'r afael â'r materion y mae Canolbarth Cymru yn eu hwynebu ar hyn o bryd?
(Mae grwpiau polisi yn cynnwys: cynllunio defnydd tir, hygyrchedd, newid ymddygiad, cysyllted d strategol, newid dulliau teithio, cerdded, beicio ac olwyno, amgylcheddol, ystwythder, diogel wch, cyfnewid ac integreiddio). *

Anfodlon iawn ☆ ☆ ☆ ☆ ☆ Bodlon iawn

5. I ba radd ydych chi'n meddwl y bydd polisïau'r CTRh ((Tudalen 39 o'r CTRh) yn effeithiol i helpu i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn y rhanbarth? (llenwch y matrics i ddangos i ba radd y credwch y bydd polisïau'r CTRh yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd) *

| | Amherthnasol iawn | Eithaf amherthnasol | Ddim yn berthnasol nac yn amherthnasol | Eithaf perthnasol | Perthnasol iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Polisïau cynllunio defnydd tir** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Polisïau hygyrchedd** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Polisïau newid ymddygiad** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Polisïau cysylltedd strategol** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Polisïau newid dulliau teithio** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Polisïau cerdded, beicio ac olwynio** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Polisïau amgylcheddol** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Polisïau ystwythder, diogelwch a gwneud gwell defnydd** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Polisïau cyfnewid ac integreiddio** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

6. A ydych yn teimlo bod unrhyw bolisïau y dylid eu cynnwys yn y CTRh nad ydynt wedi'u rhestru ar hyn o bryd?

7. I ba radd ydych chi'n meddwl bydd y cynlluniau CTRh (Atodiad RTDP) yn effeithiol wrth helpu i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn y rhanbarth? (llenwch y matrics i ddangos i ba radd y credwch bydd y cynlluniau CTRh yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd) *

| | **Amherthnasol iawn** | **Eithaf amherthnasol** | **Ddim yn berthnasol nac yn amherthnasol** | **Eithaf perthnasol** | **Perthnasol iawn** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynlluniau Cysylltedd Strategol** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Cynlluniau cerdded, beicio ac olwynio** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Trafnidiaeth gyhoeddus ac integreiddio** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Diogelwch ffyrdd** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Ystwythder y rhwydwaith trafnidiaeth** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Cerbydau gwyrdd** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Cludiant Cymunedol** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| **Newid ymddygiad** | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |

8. A ydych yn cefnogi'r dull a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer ein drafft Cynllun Monitro a Gwerthuso? *

Anfodlon iawn ☆ ☆ ☆ ☆ ☆ Bodlon iawn

9. A ydych yn cefnogi'r dull a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer ein drafft Arfarniad Llesiant Integredig? *

Anghytuno'n Gryf ☆ ☆ ☆ ☆ ☆ Cefnogwch yn gryf

10. Pa mor fodlon ydych chi fod y CTRh yn cynnwys y materion a'r heriau presennol yn rhanbarth Canolbarth Cymru? *

Anfodlon iawn ☆ ☆ ☆ ☆ ☆ Bodlon iawn

11. A oes unrhyw faterion eraill mae rhanbarth Canolbarth Cymru yn eu wynebu y dylid eu cynnwys yn y CTRh?

12. A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am y CTRh?

13. Hoffech chi gael gwybod am ddiweddariadau ynghylch y CTRh, gan gynnwys canlyniadau'r arolwg? Os felly, rhowch eich cyfeiriad e-bost isod.

14. A ydych chi'n credu y gallai'r cynnig hwn gael effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar statws y Gymraeg yn y gymuned? *

- Ydw, effaith positif
- Ydw, effaith andwyol
- Ni fydd yn cael dim effaith

15. Defnyddiwch y blwch isod i ychwanegu sylwadau pellach am effaith ar y Gymraeg (p'un a yw'r rhain yn bositif neu'n andwyol).

16. Sut ydych chi'n credu y gallai'r cynnig hwn gael ei lunio neu ei addasu er mwyn; a) cael effaith positif neu mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

17. Sut ydych chi'n credu y gallai'r cynnig hwn gael ei lunio neu ei addasu er mwyn; b) cael effaith andwyol neu yn cael effaith llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**Monitro Cydraddoldeb**

Mae'r cwestiynau hyn yn ddewisol, fodd bynnag mae'n ofynnol i'r Cyngor ddeall a yw'r ymgynghoriad wedi cyrraedd y bobl iawn (yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010) ac i ddeall sut y gallai'r cynnig effeithio ar wahanol grwpiau, gan ein galluogi i fynd i'r afael â hyn os gallwn ni.

Yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, cedwir unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani yn y cwestiynau canlynol yn gyfrinachol at ddibenion dadansoddi data yn unig.

18. Beth yw eich oedran?

- 0-15
- 16-24
- 25-44
- 45-64
- 65+
- Gwell gennyf beidio â dweud

19. Beth yw eich hunaniaeth o ran rhywedd?

- Gwryw
- Benyw
- Anneuaidd
- Trawsryweddol
- Mae'n well gennyf ddefnyddio term arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

20. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n meddwl amdanoch chi'ch hun?

- Heterorywiol/Strêt
- Hoyw, Lesbiaid neu Cwiar
- Deurywiol
- Cyfeiriadedd Rhywiol arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

21. Sut fyddech chi yn disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?

- Prydeinig
- Cernywaidd
- Seisnig
- Gogledd Iwerddon
- Albanaidd
- Cymreig
- Hunaniaeth genedlaethol arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

22. Sut fyddech chi yn disgrifio eich grŵp ethnig?

- Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig
- Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd
- Grŵp Cymysg neu Aml-ethnig
- Gwyn
- Grŵp ethnig arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

23. Beth yw eich grefydd neu gred?

- Cristion
- Bwdhaidd
- Hindŵaidd
- Iddewig
- Mwslim
- Sikh
- Dim crefydd
- Crefydd neu gred arall
- Gwell gennyf beidio â dweud

24. Ydych chi wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU o'r blaen?

(dylai aelodau cyfredol ddweud 'na')

- Ydw, yn y Lluoedd Arfog Rheolaidd
- Ydw, yn y Lluoedd Arfog wrth gefn
- Nac ydw
- Gwell gennyf beidio â dweud

25. A oes gennych gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch tymor hir sy'n lleihau eich gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd?

- Oes, mae fy ngweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig iawn
- Oes, mae fy ngweithgareddau o ddydd i ddydd yn gyfyngedig
- Nac oes
- Gwell gennyf beidio â dweud

26. Beth yw eich dewis iaith?

- Cymraeg
- Saesneg
- Gwell gennyf beidio â dweud

27. Ydych chi'n gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?

- Deall Cymraeg llafar
- Siarad Cymraeg
- Darllen Cymraeg
- Ysgrifennu Cymraeg
- Dim un o'r uchod
- Gwell gennyf beidio â dweud

**Hysbysiad Preifatrwydd**

Caiff y wybodaeth a roddir gennych ei phrosesu gan Gyngor Sir Ceredigion, a fydd yn ei phrosesu yn unol â gofynion y GDPR a'r Ddeddf Diogelu Data.

Darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd Ymgynghoriadau: https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/diogelwch-data-a-rhyddid-gwybodaeth/diogelwch-data/hysbysiad-preifatrwydd/hysbysiad-preifatrwydd-ymgynghoriadau-awdurdodau-lleol/

**Diolch**

Diolch yn fawr i chi am lanw'r arolwg.

Llawr 1af, Quest House
Parc Busnes Llaneirwg, Heol Fortran
Llaneirwg, Caerdydd
CF3 0EY

**wsp.com**